

Cymerai ran yn rheolaidd yn yr ŵyl, ac yn 1995 arweiniodd brosiect ymarferol i greu draig enfawr. Cytunodd i fod yn un o'r arddangoswyr yn 2017.



Gwen Heeney yn arwain gweithdy yng Nghanolfan y Celfyddydau yn 2013. Llun: Cath Sherrell

Morgen Hall (1960-2016)

Roedd Morgen Hall yn berson arbennig iawn, a'i brwdfrydedd heintus yn amlwg ym mhopeth a wnâi. Bu'n gweithio gyda'r ŵyl am flynyddoedd lawer ac yn 1993, a hithau'n un o'n harddangoswyr, dewisodd droi ei hymddangosiad yn ddarn o gelfyddyd perfformio. Daeth i'r llwyfan ar y noson agoriadol fel cynorthwydd cinio, mewn pinaffor traddodiadol blodeuog, yn gwthio troli te. Yn y maes, roedd yn crasu potiau crwst cywrain iawn. Roedd yn berfformwraig heb ei hail.



Derbyniadau

O Ŵyl Serameg Ryngwladol 2015 cawsom waith gan; Christie Brown (y DU), Thiebaut Chague (Ffrainc), Tony Clennell (Canada), Rita Gudino (Ynysoedd y Philipinau), Lisa Hammond (DU), Vineet Kacker (India), Jonathan Keep(y DU), Jo Taylor (y DU) a Velimir Vukicevick (Serbia).

Prynwyd gweithiau gan Philip Eglin, gan gynnwys 'Scribble', jwg wedi'i hysbrydoli gan ein crochenwaith slip Bwcle a Bouke de Vries (gyda grantiau gan y Gronfa Gelf a Chronfa Grantiau Prynu'r V&A) a gwaith hefyd gan Paul Scott, Deiniol Williams a Jessie Wine.



Philip Eglin, Scribble

Rydym yn ddiolchgar am roddion hael gan Susan Letchworth o ddarn gan Shozo Michikawa; gan Paul Hughes o waith gan Deborah Harding (1903-1991) a thri darn gan Harry Hopkins (gweithgar 1910-36) gan ei deulu.

Benthyciadau

Benthyciwyd gwaith gan Charles Vyse a Reginald Wells i'r Tate St. Ives ar gyfer arddangosfa *That Continuous Thing: Artists and the Ceramics Studio, 1920-Today* (Mawrth – Medi 2017).

Y Tim Archifo

Moira Vincentelli: Athro Emeritws mewn Hanes Celf & Churadur Cerameg
Louise Chennell: Cynorthwydd Curadurol ac Archifydd Cerameg
Neil Holland: Curadur Casgliadau

Grantiau

Dyfarnwyd grant cynnal rhaglenni gwerth £20,738 gan Gyngor Celfyddydau Cymru yn 2017-2018.

Prynwyd darnau gan Philip Eglin, Paul Scott, Christie Brown, Jo Taylor a Bouke de Vries gyda chymorth Cronfa Grantiau Prynu'r V&A a'r Gronfa Gelf.

Gwefan a Chysylltiadau

Cyfeiriad y Wefan yw <http://www.ceramics-aberystwyth.com>
Cyswllt Ebost yw contact@ceramics-aberystwyth.com
Cyfeiriad Post: Archif Cerameg, Ysgol Gelf, Buarth Mawr, Prifysgol Aberystwyth, Aberystwyth SY23 1NE
Archif Cerameg: Ffôn: (+0044) 01970 622192

Oriau Agor yr Oriel: Ar Agor: Llun-Sad 10 am–8pm (Suliau 12–5pm) gwiriwch yr oriau agor cyn ymweld er mwyn osgoi newidiadau neu gyfnodau ar gau ar gyfer cynnal a chadw.

Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth: Ffôn (+0044) 01970 623232 (am fanylion arddangosfeydd)

Ysgol Gelf: Ffôn (+0044) 01970 622460 (ar gyfer gwybodaeth gyffredinol, ymholiadau a chwestiynau).

Dilynwch ni ar Trydar  a Facebook  os gwelwch yn dda.

Cydnabyddiaethau

Mae'r Archif Gerameg ar gael yn Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth. Rydym yn ddiolchgar i'r cyrff ariannu canlynol sydd wedi cefnogi ein gwaith: Cyngor Celfyddydau Cymru, Cronfa Grant Pwrcasu Adnoddau/y V&A, Y Gronfa Gelf, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriellau Cymru.



Supported by
The National Lottery[®]
through the Arts Council of Wales



Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

ARCHIF CERAMEG

Yr Ysgol Gelf, Prifysgol Aberystwyth

Bwletin

NEWYDDION A GWOBRAU

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf rydym wedi bod yn hynod brysur wrth i weithiau o'n casgliad fynd ar daith. Dangoswyd sioe *Slipping the Trail* Philip Eglin yn Oriel Rhydychen, Canolfan Grefftau Rhuthun, Oriel Gelf Burton, Oriel Bideford and Mission Abertawe. Yn 2016 defnyddiodd Amgueddfa Cheltenham ein casgliad o gerfluniau seramig o anifeiliaid yn sail i'w sioe haf: *Wild Worlds* a chomisynodd osodwaith mawr wedi'i ysbrydoli gan y gweithiau. Rydym hefyd wedi benthyca dau ddarn i Tate St Ives ar gyfer arddangosfa i ailagor yr oriel: *That Continuous Thing: Artists and the Ceramics Studio, 1920 – Today* (Mawrth-Medi 2017). Rydym wedi derbyn pob un o'r tair sioe yng nghyfres Iaith Clai ac mae Anna Noel, Micki Schloessing, Anne Gibbs wedi rhoi arddangosiadau a sgysiaiu.

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod yr Ysgol Gelf wedi cadw ei statws achrededig llawn fel amgueddfa. Mae'r nod barcud hwn, dan ofal Cyngor Celfyddydau Lloegr mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, yn tystio ein bod yn cyrraedd y safonau uchaf wrth ofalu am ein casgliadau a'u rheoli. Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth ac Ysgol Gelf Glasgow yw'r unig ddwy ysgol gelf yn y DU sydd ag amgueddfeydd achrededig.

Dyfarnwyd statws Atyniad Ardystiedig i'r Oriel Serameg ar gyfer 2013/15 dan y Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau i Ymwelwyr (VAQAS) i Amgueddfeydd. Ym mis Mawrth 2017 cawsom grant cynnal rhaglenni gwerth £20,738 gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Bydd ein prosiect ar y cyd ag Adam Buick yn elfen ganolog o'r gwaith hwn.

Crossings: Adam Buick a chwedl Tresaith
30 Mehefin – 27 Awst 2017

Y crochenydd a'r gwneuthurwr ffilmiau Adam Buick sydd wedi datblygu'r prosiect arloesol hwn, yn seiliedig ar stori'r saith tywysoges Wyddelig a anfonwyd dros y môr i Ianio yn Nhresaith a phriodi Cymry. Mae Tresaith yn rhan o Arfordir Treftadaeth Ceredigion.



Photo: Adam Buick



Rhifyn 14 2016/17

- Newyddion a Gwobrau <
Crossings: Adam Buick
- Arddangosfeydd a Digwyddiadau <
Estyn Allan a Dysgu i'r Teulu
Digideiddo
Jim Robison a'r Ŵyl Serameg Ryngwladol
- Cofio'n Cyfeillion <
Gwen Heeney
Morgen Hall
Pete Goodridge
- Derbyniadau a Benthyciadau <
Grantiau <
Y Wefan a Manylion Cyswllt <
Tim yr Archif <
Cydnabyddiaeth <



Mae'r prosiect yn rhoi sylw i thema amserol teithiau peryglus ar y môr, ac mae Adam wedi creu saith o lestrau lleud i'w hanfon o Iwerddon i hwylio dros Fôr Iwerddon. Y gobaith yw y byddant yn glanio yng Ngheredigion. Mae eu taith yn cael ei chofnodi drwy systemau olrhain ac yn cael ei mapio ar dudalen ar y we. Bydd Adam hefyd yn gwneud ffilm am y prosiect i'w dangos ochr yn ochr â mapiau a llestrau lleud yn yr arddangosfa a gynhelir yn ystod yr Ŵyl Serameg Genedlaethol. Bydd yr arddangosfa hefyd yn cynnwys gwaith comisiwn gan Marged Pendrell, Meri Wells a Val James, yn ymateb i'r un thema.

Bydd yr arddangosfa'r mynd ar daith i Amgueddfa Storiell ym Mangor o fis Medi tan fis Tachwedd 2017 a bydd y ffilm ar gael i fynd ar daith wedi hynny. Trefnir gweithgareddau a digwyddiadau arbennig i fynd law yn llaw â'r prosiect dros yr haf. Prosiect ar y cyd yw hwn gyda Dr. Mark Neal ac Adran Cyfrifiadureg Prifysgol Aberystwyth.

ARDDANGOSFEYDD A DIGWYDDIADAU CYSYLLTIEDIG

Philip Eglin: *Slipping the Trail* ac Ymateb i Grochenwaith Bwcle yng Nghasgliad Aberystwyth

20 Mehefin tan 9 Awst 2015



Prosiect ar y cyd rhwng casgliad serameg Aberystwyth a Philip Eglin. Roedd catalog yr arddangosfa'n cynnwys ffotograffau gan Oliver Eglin, mab Philip, gyda thraethodau gan Moira Vincentelli, Jill Piercy, Josie Walter a David Whiting. Mae ar gael am £10 gan gynnwys postio a phecynnu yn uniongyrchol o'r Archif Serameg. Anfonwch siec yn daladwy i Brifysgol Aberystwyth neu archeb bost am £10 i'r Archif a Chasgliad Serameg yn y cyfeiriad ar y dudalen gefn.

Confected Borrowed and Blue ... Gosodwaith gan Paul Scott

22 Awst – 4 Hydref 2015

Mae Paul Scott yn defnyddio technoleg ddigidol i drin a thrafod motiffau cyfarwydd serameg ddiwydiannol wedi'i hargraffu â throsoluniau. Yn yr arddangosfa hon, enwau patrymau llestri bwrdd o Archif Spode oedd y dylanwad – patrymau sydd, yn ôl Paul Scott, 'yn dwyn i gof gyfosodiadau hynod, naratifau barddol a cherddi nonsens anfwriadol'.

Trefnwyd yr arddangosfa gan Amgueddfa Holburne yng Nghaerfaddon, a Jo Dahn oedd y curadur.

Enwi'r Anifeiliaid

8 Hydref 2015 – 31 Ionawr 2016

Roedd yr arddangosfa hon yn cynnwys gweithiau o'r Casgliad Serameg o wahanol rannau o'r byd gan gynnwys dau gerflun terracotta a wnaed yn yr Ŵyl Serameg Genedlaethol yn 2007 gan y cerflunydd traddodiadol o India Palaniappan Muthukaruppan.

Made Anew, Straeon Torri a Thrwsio

20 Chwefror – 5 Mehefin 2016


Roedd yr arddangosfa'n seiliedig ar thema crochenwaith wedi'i dorri a'i drwsio, ei storïau a'i gysylltiadau. Man cychwyn yr arddangosfa oedd derbyn Casgliad Ann Carr o grochenwaith yn rhodd o Wenford Bridge yn 2014 gan Michael Cardew a'i gydweithwyr. Yn ogystal â darnau hynod ddiddorol o gasgliad Pete Goodridge, roedd yr arddangosfa hefyd yn cynnwys gwaith artistiaid serameg sy'n chwarae â'r syniadau hyn: Bouke de Vries, Paul Scott, Melanie Brown a David Cushway. Ym mis Mehefin 2016 bu MV yn cydweithio â Jenny Williamson (LIGC) i gymryd rhan mewn cynhadledd i Gadwraethwyr yng Nghymru 'Damage – who cares?'. Roedd nifer o'r cyflwyniadau'n ymwneud â 'photiau wedi'u torri a'u trwsio'.

‘Y Prosiect Botymau’, wedi'i guradu gan Dr Jo Dahn

18 Mehefin – 25 Medi 2016

Mae'r Prosiect Botymau'n arbrawf parhaus o ran curadu a chydweithio creadigol. Dechreuodd y cyfan yn 2013 pan anfonodd Jo Dahn neges i ymarferwyr serameg, yn gofyn iddynt greu botwm a'i bostio ati. Casglodd dros 600 o fotymau serameg o bedwar ban byd. Mae'r manylion ar gael yma:

<https://www.facebook.com/JoDahnButtonProject/>



Iaith Clai (Rhan Un)

Anna Noel: Adrodd Straeon

22 Hydref 2016 – 8 Ionawr 2017

Dae'r, Tân a Halen, potiau gan Micki Schloessingk

4 Chwefror – 26 Mawrth 2017

Anne Gibbs: Llonydd

8 Ebrill 2017 -11 Mehefin 2017

Dyma dair sioe unigol, wedi'u curadu gan Ceri Jones, sy'n rhoi llwyfan i artistiaid o Gymru sy'n ymdrin â serameg mewn ffyrdd deinamig – un yn ffigurol, un yn botiau wedi'u llunio, ac un yn osodwaith. Rhoddodd pob un o'r artistiaid arddangosiadau neu sgysiau yn Aberystwyth. Rydym wedi cael enghreifftiau i'r casgliad gan bob un o'r tri.



Anna Noel, Dyn ar Llew

Estyn Allan a Dysgu i'r Teulu

Mae Dysgu i'r Teulu'n mynd o nerth i nerth, a'r niferoedd wedi codi 30% ers 2012. Cafodd y cynllun ei argymhell yn rhestr Diwrnodau Allan Gwych papur newydd y Times ym mis Chwefror 2016. Cynigiwn ddiwrnodau astudio serameg i fyfyrwyr a'r

cyhoedd, gyda siaradwyr ac artistiaid gwadd. Ymhlith y sesiynau mae sesiynau trin a thrafod, mynediad i'r storfeydd, a hefyd i ddeunydd yr archif a recordiadau hanes llafar. Cofrestrwch ar ein gwefan i dderbyn y newyddlen, sy'n cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf a gwahoddiadau i ddigwyddiadau.

Digideiddo

Mae gwefan y casgliad serameg wedi'i diweddarau, ac mae bellach yn ddwyieithog ac yn haws llywio drwyddi, ac mae'n cynnwys cymhorthion i ddod o hyd i ddeunydd yn yr archif. Yn 2016 a dechrau 2017 cwblhaodd rhai o raddedigion Prifysgol Aberystwyth interniaethau ar gynllun AberYmlaen a chael profiad gwaith yn yr Archif Serameg, gan gynnwys catalogio a digideiddio deunydd.

Jim Robison – yn edrych ‘nôl ar y 30 mlynedd ers cychwyn yr Ŵyl Serameg Genedlaethol:

Rwyf wedi treulio'r rhan fwyaf o fy ngyrfa'n creu ac yn dysgu eraill (ers 1965) ac felly mae chwarae rhan frwd mewn prosiectau serameg a chelf yn gyffredinol, ynghyd â hybu ac annog eraill, wedi bod yn rhan hanfodol o bopeth sy'n bwysig i mi .

Mae Aberystwyth yn unigryw o ran ei huchelgais a'i chwmpas. Mae'n dod ag artistiaid/crochenyddion eithriadol o bedwar ban byd at ei gilydd ac yn rhoi llwyfan iddynt i ddangos eu sgiliau ac i drafod eu hathroniaeth.

Gan fod gennyf brofiad o gynnig help llaw gyda'r ŵyl yn gyffredinol, ac oherwydd fy mod yn dysgu yng Ngholeg Bretton Hall, rwyf wedi dod ag amryw o griwiau o fyfyrwyr yma i helpu. Yn y ddwy ŵyl gyntaf roeddwn yn arddangos fy ngwaith, a oedd yn cynnwys elfen o gyfranogiad gan y cyhoedd mewn prosiect yn gwneud teils tri dimensiwn; yna, gan fy mod wedi bod yn cynorthwyo Mick Casson ar y llwyfan, cefais swydd anffurfiol fel Meistr y Ddefod. Erbyn hyn, dyna yw fy ngwaith yn anad dim yn yr ŵyl, ac mae bellach yn swyddogaeth ffurfiol. Dros y blynyddoedd diwethaf, rwyf wedi cael cymorth gan Ingrid Murphy o Brifysgol Caerdydd. Mae'n ffrainc ac yn anrhydedd cael cyfarfod a gwylio cynifer o ddoniau gwych, a hynny mor agos.

Mae'r gwaith trefnu'n cael ei rannu rhwng Canolfan y Celfyddydau Prifysgol Aberystwyth a sefydliadau crochenyddion de Cymru a gogledd Cymru. Mae'r ochr fusnes wedi dod yn fwyfwy pwysig dros y blynyddoedd diwethaf ond mae'r ŵyl wedi glynu at ei hathroniaeth hanfodol o wahodd artistiaid/crochenyddion uchel eu bri i ddangos eu gwaith ac yna agor y drws i selogion i gymryd rhan a

chyfathrebu'n uniongyrchol â'r gwahoddedigion. Mae perfformio'n elfen gref o'r ŵyl, ac addysg ac adloniant yn mynd law yn llaw. Mae'r trefnwyr bob amser yn gosod digwyddiadau awyr agored a ffwrn-sychu yn eitem ar wahân yn y rhestr 'artist/crochenydd gwadd'. Mae'r rhain yn rhan annatod o'r rhaglen ac yn ychwanegu elfen o sioe, ac ar yr un pryd yn cadarnhau'r ffaith mai'r ody'n yw hanfod popeth y mae'r crochenydd yn ei wneud.

Rydym wedi gweld rhai gweithgareddau digon gwallgo: canoli'r clai a llunio llestr ar ben crochenydd moel; odynau wedi'u creu o flociau o rew (gan ychwanegu tân gwyllt hanner ffordd drwodd i wneud yr holl beth hyd yn oed yn fwy dramatig a pheryglus); odynau raku yn llosgi'r ddaear a chreu siâp amffora, neu'n edrych fel croth enfawr, yn rhoi genedigaeth gerbron y dorf. Ond er mor wirion y maen nhw'n ymddangos, mae elfennau addysgiadol i'r holl brosesau hyn, ac ar eu gorau maent yn ein hysbrydoli ac yn ein rhyfeddu.

COFIO'N CYFEILLION

Rhoddwn deyrnged arbennig yn y bwletin hwn i dri unigolyn sydd wedi bod yn ymwneud â'r ŵyl mewn gwahanol ffyrdd dros flynyddoedd lawer.

Pete Goodridge (1955-2017)

Roedd Pete yn ffigwr deinamig ym myd celf a chrefft weledol yng Nghymru am flynyddoedd lawer. Roedd ei gwmni, ArtWorks, yn cludo gweithiau celf ledled Prydain a thu hwnt ond roedd hefyd yn symbylydd, yn gydweithiwr, yn rhwydweithiwr ac yn gasglwr serameg. Cyflawnodd sawl swyddogaeth gyda'r Ŵyl Serameg Genedlaethol, yn gyfarwyddwr am rai blynyddoedd, ac yn fwy diweddar, yn rheolwr safle. Bydd colled fawr ar ei ôl.



Pete Goodridge yng Ngŵyl Serameg 2015 yn tanio'r ody'n eni Lual gyda Rita Gudino a Pablo Capati III. Llun: Ian Marsh

Gwen Heeney (1952-2017)

A hithau'n athrawes ac yn ddarlithydd brwd, yng Nghaerdydd i ddechrau, ac ers 1998 ym Mhrifysgol Wolverhampton, roedd yn arbenigwraig ar serameg bensaernïol a cherflunio â brics. Cyhoeddwyd ei llyfr Brickworks yn 2003. Roedd ganddi broffil rhyngwladol a threuliodd gyfnodau preswyl mewn sefydliadau, yn fwyaf nodedig yn Sefydliad Archie Bray yn yr Unol Daleithiau.